

Polisi Hinsawdd
Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cyflwyniad a Goruchwyliaeth

- 1 Partneriaeth Pensiwnau Cymru (Y Bartneriaeth) yw'r trefniant cronfeydd cyfun ar gyfer asedau wyth o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru (Awdurdodau Cyfansoddol).
- 2 Goruchwylir trefniadau buddsoddi PPC gan Gydbwyllgor Llywodraethu (CBLI) ac fe'i cefnogir gan Weithgor Swyddogion (GS) a'u gweithredu drwy ystod o fuddsoddiadau PPC – mae hyn yn cynnwys Is-gronfeydd a reolir yn weithredol, ynghyd â mandadau goddefol o fewn marchnadoedd rhestredig; a rhaglenni buddsoddi a reolir yn weithredol mewn marchnadoedd preifat (anhylifol) - a reolir gan ei Reolwyr Buddsoddi. Cefnogir y gweithrediad gan amrywiol ddarparwyr gwasanaeth, gan gynnwys y Gweithredwr, Rheolwyr Buddsoddi a Ymgynghorydd Trosolwg.
- 3 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod newid hinsawdd yn cynrychioli risg systematig i'w rhan ddeiliaid, yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mae gan newid hinsawdd y potensial i effeithio (ac amharu) ar systemau economaidd, ariannol a chymdeithaso, gan gynnwys effeithio ar ffurflenni ariannol a demograffeg.
- 4 Mae'r Bartneriaeth yn ymwybodol y gall newid hinsawdd olygu cam brisio asedau a chyfleoedd buddsoddi unigryw (yn cynnwys datrysiadau hinsawdd). Cred y Bartneriaeth y bydd glynu at bolisiau buddsoddi cyfrifol a strategaethau lliniaru risg hinsawdd yn golygu bod ei Hawdurdodau Cyfansoddol mewn lle da i adnabod a manteisio o'r cyfleoedd buddsoddi posib.
- 5 Ni wyddom beth fydd effaith bosib Newid yr Hinsawdd ar Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth a'u rhan-ddeiliaid mewnol (Aelodau a Chyflogwyr y Cynllun), o gofio am yr ansicrwydd polisi ar effeithiau ffisegol na wyddom amdanynt a all ddod o Newid Hinsawdd. Mae'r risgiau i'r Awdurdodau Cyfansoddol (ACau) a gyfyd o newid hinsawdd yn cynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:
 - 5.1 Risgiau ffisegol: megis difrod i eiddo oherwydd llifogydd neu wlybaniaeth is yn achosi cynhaeaf gwael. Gall effaith o'r fath gael ei themlo yn uniongyrchol gan yr ACau neu drwy effaith ar ddychweliadau a gyflwynir i'r ACau drwy fuddsoddiadau y Bartneriaeth;
 - 5.2 Risgiau Trawsnewid: sef y risgiau ariannol sy'n codi o newidiadau mewn polisi a thechnoleg i ymaddasu i economi carbon is a'r graddau mae'r rhain yn llifo drwodd i'r dychweliadau a gyflwynir i'r ACau drwy fuddsoddiadau y Bartneriaeth.
 - 5.3 Risgiau atebolrwydd: sef y costau posib a gyfyd gan bartïon sydd wedi dioddef colled neu ddifrod oherwydd newid hinsawdd sy'n ceisio cael iawndal gan y rhai maent yn eu dal yn gyfrifol, gan gynnwys dosbarthwyr y mae PPC yn buddsoddi ynddynt.
- 6 Mae'r polisi hwn yn nodi dull PPC o ymdrin â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol o ran risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r hinsawdd a chyfleoedd buddsoddi (gan gynnwys datrysiadau hinsawdd), ynghyd â monitro'r risgiau hyn.
- 7 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y bartneriaeth yn flynyddol, a phe bai'n rhaid, caiff newidiadau i'r polisi eu cynnig i'r CBLI a'r GS a'u cytuno ganddynt. Fel rhan o broses yr adolygiad blynyddol bydd y Bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth i'r risg sy'n esblygu i'r Awdurdodau Cyfansoddol a hefyd i'w gofynion.
- 8 Wrth ddatblygu a gweithredu'r polisi hwn, bydd y bartneriaeth yn ystyried Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016, Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiwnau ac unrhyw ganllawiau perthnasol a ddarperir gan y Bwrdd Cyngori Cynllun, yr Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau a'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd. Bydd y polisi yn nodi canllaw Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- 9 Wrth gynnal a gweithredu ar y polisi yma, bydd gan y Bartneriaeth ddeialog barhaus gyda ei Gweithredwr, Rheolwyr Busnes, Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a'r Ymgynghorydd Trosolwg. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn ceisio mewnbwn gan drydydd partïon lle fo'n briodol.

Credoau

- 10 Mae gan y Bartneriaeth set o gredoau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, sy'n greiddiol i'w dull o ymdrin gyda'r risg posib a gyfyd o newid hinsawdd, a'r datrysiadau buddsoddi mae yn eu darparu i'r Awdurdodau Cyfansoddol i hwyluso rheolaeth o'u risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a chyfleoedd buddsoddi. Mae credoau'r Bartneriaeth fel a ganlyn:
- 10.1 Mae risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn systemig o ran eu natur, gyda'r potensial i effeithio i raddau amrywiol ar y dychweliad buddsoddi o'r holl ddsbarthiadau ased a sectorau. Gall effaith o'r fath fod yn bositif neu'n negyddol.
- 10.2 Mae PPC yn cydnabod pwysigrwydd trawsnewidiad cyfiawn, gan gydnabod y bydd newid ein llwybr presennol yn gofyn am ddull cyfannol ar draws pob rhan o'r economi. Bydd y trawsnewidiad yn golygu cyfnod parhaus o newid, i ffwrdd o economi fyd-eang sy'n dibynnu ar danwydd ffosil yn gyffredinol. Bydd lliniaru ac addasu i effeithiau'r hinsawdd hefyd yn golygu bod angen buddsoddi mewn datrysiadau hinsawdd.
- 10.3 Mae gwell dealltwriaeth o risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd, ynghyd ag ymrwymadau y llywodraeth, yn debygol o sbarduno trawsnewidiad carbon isel fydd yn cyflwyno amryw o gyfleoedd buddsoddi cryf i fuddsoddwyr, fel Awdurdodau Cyfansoddol y Bartneriaeth, sydd yn wybodus iawn ar faterion Risg Hinsawdd ac yn gallu rheoli a lliniaru risg trawsnewidiad.
- 10.4 Mae'n ddyletswydd ar y Bartneriaeth i adnabod ffynonellau posib o risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd wrth ddatblygu unrhyw cynnyrch buddsoddi a/neu gaffael unrhyw wasanaeth ddarparwyr, ble fo angen, yn ceisio sicrhau bod risgiau o'r fath yn cael eu rheoli yn briodol a'u cyfathrebu i'r rhan-ddeiliaid.
- 10.5 Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu arbenigol i ymgysylltu yn uniongyrchol gyda chwmnïau sy'n buddsoddi ar ystod o faterion, yn cynnwys risg hinsawdd, datgeliadau risg hinsawdd, buddsoddiadau mewn datrysiadau hinsawdd a datblygu cynlluniau trawsnewid i wella gwerth hirdymor buddsoddiadau yr Awdurdodau Cyfansoddol yn y Bartneriaeth.
- 10.6 Fel rhan o'i rôl, mae Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu y Bartneriaeth yn cydweithio gyda pherchnogion asedau eraill i uchafu effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu y Bartneriaeth. Cred y Bartneriaeth bod cydweithio gyda pherchnogion asedau eraill a'i rheolwyr buddsoddi yn gallu bod yn ddull effeithiol i chwyddo ei llais gyda chwmnïau sy'n buddsoddi a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd.

Amcanion

- 11 Amcan y Bartneriaeth wrth baratoi a gweithredu'r polisi hwn yw:
- 11.1 dangos i'w rhan-ddeiliaid fod y Bartneriaeth yn rhoi ystyriaeth i newid hinsawdd a'r risg a chyfle sy'n ymwneud â'r hinsawdd;
- 11.2 amlinellu yn glir ei rôl a'i chyfrifoldebau o ran cynnal ymgynghoriad parhaus gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol a hwyluso cynigiad buddsoddiad fydd yn galluogi bob Awdurdod i weithredu eu polisi risg hinsawdd eu hunain a thargedau sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r uchelgeisiau;
- 11.3 yn ffurfiol amlinellu'r camau gweithredu y bydd y Bartneriaeth yn cael eu dal i gyfrif amdanynt gan ei rhan-ddeiliaid.

- 12 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn gyfrifol am eu strategaeth fuddsoddi eu hunain, yn cynnwys eu Polisi Hinsawdd eu hunain. Nid yw'r Bartneriaeth yn rhan o'r gwaith o lunio yr amcanion newid hinsawdd neu'r ymrwymïadau mae bob Awdurdod Cyfansoddol wedi eu gwneud ar lefel leol, ac ni fydd yn ceisio dylanwadu arnynt.
- 13 Rôl y Bartneriaeth yw ymgynghori gyda phob Awdurdod Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, bob blwyddyn o leiaf, ac i lawn ddeall pa ddatrysiadau gweithredu maent eu hangen i gwrdd gyda'u hamcanion a'u hymrwymïadau.
- 14 Yn dilyn ymgynghori gyda phob Awdurdod Cyfansoddol bydd y Bartneriaeth yn ceisio datblygu a hwyluso datrysiadau buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni eu hamcanion ac ymrwymïadau hinsawdd.
- 15 Ble fo'n bosib bydd y Bartneriaeth, a'i Hawdurdodau Cyfansoddol, yn ceisio cydweithio gyda'i gilydd i ddatblygu datrysiadau buddsoddi sy'n cwrdd ag amcanion ac ymrwymïadau hinsawdd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.
- 16 Os na ellir datblygu datrysiadau unedig sydd ar yr un pryd yn cwrdd ag amcanion a gofynion yr holl Awdurdodau Cyfansoddol, bydd y Bartneriaeth yn gweithio gydag unrhyw Awdurdod Cyfansoddol i ddatblygu datrysiadau buddsoddi wedi eu teilwra i'w galluogi i gyflawni eu hamcanion a'u gofynion lleol eu hunain.
- 17 Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol y gall fod costau ychwanegol, neu arbedion ffi gostyngol, yn gysylltiedig â gwaith y Bartneriaeth o hwyluso'r datrysiadau buddsoddi hyn sydd wedi' teilwra ac maent wedi dangos eu parodrwydd i ysgwyddo'r costau i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd â'u hamcanion a'u gofynion lleol.
- 18 Bob blwyddyn bydd y Bartneriaeth yn asesu os yw ei hymarfer ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi adnabod amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn barod i'w gefnogi. Os oes cefnogaeth unfrydol, gan wyth Awdurdod Cyfansoddol Cymru, bydd y Bartneriaeth yn ceisio mabwysiadu'r amcanion hyn sy'n ymwneud â'r hinsawdd fel 'Nod Hinsawdd' y Bartneriaeth gan eu hymgorffori ar draws holl buddsoddiadau y Bartneriaeth, gyhyd ag y bo'n ymarferol, gan gydnabod yr anhawster posibl i wneud hynny ar y mandadau goddefol ac o fewn marchnadoedd anhylifol.
- 19 Caiff Nod Hinsawdd y Bartneriaeth ei adolygu yn rheolaidd, yn dilyn ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol, a bydd bob amser yn cael ei yrru gan ofynion ac amcanion torfol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Os yw ymarfer ymgynghorol y Bartneriaeth gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol yn methu adnabod amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn barod i'w gefnogi yn unfrydol, yna ni fydd Nod Hinsawdd i'r Bartneriaeth yn cael ei lunio tan fo cefnogaeth unfrydol i Nod Hinsawdd penodol.
- 20 Er mwyn hwyluso trafodaeth yn y dyfodol ac adeiladu consensws ar yr hinsawdd yn gyffredinol, gan gynnwys ar Amcan Hinsawdd cyffredin, bydd PPC yn datblygu Fframwaith Hinsawdd. Bydd y Fframwaith Hinsawdd yn cynnwys tacsonomeg gyffredin a sail gyffredin ar gyfer gosod targedau hinsawdd. Bydd hyn yn cefnogi datblygu cynnyrch yn y dyfodol, esblygiad polisi ac adrodd i fynd i'r afael â nhw mewn modd cyson. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i PPC asesu ei chronfeydd presennol (gweithredol a goddefol, rhestredig a phreifat) yn erbyn y Fframwaith Hinsawdd i hwyluso esblygiad lle bo hynny'n briodol.

Strategaeth Buddsoddiad

- 21 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod gan yr holl asedau beth lefel o fod yn agored i risgiau yn ymwneud â'r hinsawdd, yn enwedig risgiau trosglwyddo, ond bod y sector, daearyddiaeth, ansicrwydd polisi ac amserlenni buddsoddi yn benderfynyddion allweddol o fod yn agored i risg hinsawdd.

- 22 O gydnabod ei threfniadau buddsoddi a'r cynigion presennol, bydd y Bartneriaeth yn canolbwyntio yn syth ar fod yn agored i risg yn ymwneud â'r hinsawdd yn ei daliadau ecwiti ac incwm sefydlog. Bydd y Bartneriaeth yn ystyried risgiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd mewn dosbarthiadau ased eraill pan fo amgylchiadau yn caniatáu neu angen iddi wneud hynny. Bydd y Bartneriaeth yn ceisio darparu datrysiadau risg hinsawdd ar draws ei holl cynhyrchion buddsoddi, gan gynnwys asedau'r farchnad breifat a mandadu goddefol.
- 23 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod pwysigrwydd monitro eu hamlygiad i risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd mewn gwahanol ffyrdd. Mae deall cysylltiad â datrysiadau hinsawdd hefyd yn fuddiol o ran deall anghenion buddsoddi i gyflawni nodau hinsawdd. Un ffordd y mae PPC yn hwyluso hyn yw drwy fonitro cysylltiad â nifer o briodoleddau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer pob Is-rgonfa i sicrhau bod gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt. Mae PPC yn derbyn Adroddiadau Risg Hinsawdd ac ESG rheolaidd ar gyfer ei Is-gronfeydd Ecwiti ac Incwm Sefydlog. Bydd PPC yn parhau i archwilio ac ymchwilio i ddatblygiadau'r farchnad sy'n gwella ei allu i asesu cysylltiad â'r hinsawdd o fewn ei gynhyrchion buddsoddi, gan gynnwys asedau marchnad breifat.
- 24 Mae PPC yn cydnabod rhinweddau cynnal dadansoddiad senario ar effaith economaidd bosibl risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chysylltiad â datrysiadau hinsawdd, a mynegi canfyddiadau'r dadansoddiad hwnnw i'r Awdurdodau Cyfansoddol. Fodd bynnag, mae PPC yn nodi bod hwn yn faes sy'n esblygu ac mae dadansoddiad o'r fath yn anaeddfed iawn. Bydd PPC yn ymdrechu i hwyluso dadansoddiad senario hinsawdd ar draws asedau a ddelir o fewn PPC i sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r cysylltiadau hinsawdd posibl o fewn buddsoddiadau PPC.
- 25 Mae'r Bartneriaeth yn cydnabod bod hyfforddiant ac addysg yn hanfodol i gyflawni deilliannau da i'r rhan-ddeiliaid a bydd yn dyrannu adnoddau i sicrhau ei bod yn ymgymryd â hyfforddiant ac addysg rheolaidd a newid hinsawdd. Mae'r Bartneriaeth wedi ymrwmo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol yn ymwneud â hinsawdd ar gyfer ei rhan-ddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal ymarfer adnabod anghenion hyfforddi blynyddol, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol, mae hwn yn fecanwaith y defnyddia'r Bartneriaeth i fesur gofynion hyfforddiant gysylltiedig a'r hinsawdd ei rhan-ddeiliaid.

Gweithredu

- 26 Gellir gweld dull y Bartneriaeth i ddewis rheolwr yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae gan Reolwyr Buddsoddi is-gronfa'r Bartneriaeth gyfrifoldeb dirprwyedig i herio rheolwyr ar eu dull o ystyried risg hinsawdd fel rhan o'i broses o ddewis rheolwr.
- 27 Mae'r Bartneriaeth yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi sicrhau bod yr holl reolwyr gweithredol gwaelodol yn integreiddio ystyriaeth risgiau sy'n ymwneud â hinsawdd i'w proses fuddsoddi ac i herio rheolwyr gwaelodol yn rheolaidd i roi tystiolaeth am eu dull.
- 28 Bydd y Bartneriaeth yn gweithio gyda ei Rheolwyr Buddsoddi i sicrhau eu bod yn rhoi cyfrif am ac yn integreiddio risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn eu prosesau buddsoddi. Mae'r Bartneriaeth yn ystyried bod rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn feini prawf allweddol ym mhenodiad unrhyw Reolwr Buddsoddi ac yn deall y bydd gan pob Rheolwr Buddsoddi ei fodd ei hun o integreiddio risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd yn eu proses fuddsoddi.
- 29 Mae strategaeth stiwardiaeth PPC wedi'i nodi yn ei Bolisiau Buddsoddi Cyfrifol a Stiwardiaeth. Bydd PPC yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ar risgiau a chyfluoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn bennaf trwy ei Ddarparwr PacY. Yn benodol, bydd PPC yn annog ei Ddarparwr PacY i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi mewn marchnadoedd rhestredig ar faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys datgeliadau ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd gan gwmnïau i fuddsoddwyr, ac ar lunio a gweithredu cynlluniau trawsnewid sy'n cyd-fynd â nodau Cytundeb Paris.

- 30 Mae gan PPC Bolisi Stiwardiaeth a chyfres o Themâu Stiwardiaeth ar waith a fydd yn amlinellu sut y bydd yn defnyddio ei hawliau pleidleisio a'i weithgareddau ymgysylltu i ddylanwadu ar gwmnïau buddsoddi, gan gynnwys ar ddatblygu cynlluniau a nodau trawsnewid. Darparwr PacY PPC sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddeddfu'r polisiau hyn ar ran PPC, er bod PPC hefyd yn cydnabod ymdrechion ymgysylltu ei Reolwyr Buddsoddi a LAPFF. Mae pleidleisio ar y mandadau goddefol yn gorwedd gyda'r darparwr goddefol perthnasol.

Monitro ac adrodd

- 31 Mae PPC yn monitro cysylltiad â risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei Is-gronfeydd bob chwarter. Mae'r metrigau sy'n cael eu monitro'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, daliadau sy'n dod i gysylltiad â chronfeydd tanwydd ffosil, dwysedd carbon allyriadau carbon, ac amlygiad i ddatrysiadau hinsawdd. Bydd PPC yn monitro newidiadau mewn arferion y farchnad i sicrhau bod PPC yn gwbl ymwybodol o arferio gorau sy'n newid. Bydd PPC yn datblygu monitro pellach o aliniad trosglwyddo asedau.
- 32 Yn ogystal â'i adrodd ei hun, bydd PPC yn ei gwneud yn ofynnol i'w Rheolwyr Buddsoddi ddarparu monitro ar gysylltiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu hadroddiadau chwarterol i PPC a'r Awdurdodau Cyfansoddol. Fel y nodwyd uchod, mae PPC yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi ecwiti ac incwm sefydlog ddarparu'r monitro hwn yn rheolaidd. Mae PPC yn disgwyl adrodd ar yr hinsawdd o leiaf bob blwyddyn gan ei rheolwyr marchnad breifat, er ei bod yn cydnabod y cyfyngiadau data sy'n bodoli y tu allan i farchnadoedd rhestredig. Y disgwyl yw y bydd Rheolwyr Buddsoddi PPC nad ydynt yn ecwiti yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol cyn gynted ag y bydd datblygiadau data/marchnad yn caniatáu.
- 33 Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu y Bartneriaeth sy'n gyfrifol am lunio'r adroddiadau chwarterol a blynyddol ar weithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu'r Bartneriaeth. Mae'r adroddiadau hyn yn dystiolaeth o sut mae'r Bartneriaeth wedi defnyddio ymgysylltu a phleidleisio i reoli ei risg sy'n ymwneud â'r hinsawdd.
- 34 Bydd PPC yn asesu ac yn adrodd ar gynnydd ar yr hinsawdd ar gyfer holl asedau PPC yn flynyddol, gydag adroddiad ehangach 'Cymru gyfan' i'w gynnal bob tair blynedd. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, ac fel rhan o unrhyw rwymedigaethau rheoleiddiol, dylai adroddiadau o'r fath fod yn unol â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD). Bydd PPC yn cefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eu hadroddiadau TCFD eu hunain.

Stiwardiaeth

- 35 Mae dull WPP o stiwardiaeth yn gyffredinol (gan gynnwys stiwardiaeth hinsawdd) wedi'i amlinellu yn ei Pholisi Stiwardiaeth. Er mwyn hwyluso stiwardiaeth o amgylch yr hinsawdd yn benodol, bydd PPC yn cadw rhestr o gwmnïau 'sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd' (ar draws daliadau ecwiti gweithredol a goddefol) lle bydd gweithgarwch stiwardiaeth yn cael ei graffu yn benodol. Bydd rhestr o'r fath yn cynnwys y stociau hynny o fewn y sectorau yr effeithir arnynt yn sylweddol (neu'r rhai sy'n ariannu hynny) lle mae'r risg neu'r potensial mwyaf ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn helpu PPC: i gefnogi goruchwylio arferion pleidleisio ar y dosbarthwyr hynny; craffu ymhellach ar weithgarwch ymgysylltu a wneir gyda'r dosbarthwyr hynny; ac asesu (yn barhaus) y canlyniadau a gyflawnwyd.